# Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion Ymchwiliad Craffu: Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd (Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn)

Mabwysiadwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal ar 12 Medi 2019.

## 1. Rhagair

Mae'r ymchwiliad craffu hwn wedi codi'r llen ar y gwasanaeth sydd ar gael i ddarparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd, yn blant ac oedolion. Y bwriad oedd ymchwilio i weld a oedd angen gwella'r ddarpariaeth bresennol.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Peter Read i gyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017, fe benderfynodd y Cyngor:

> "Bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu".

## 3. Nod yr Ymchwiliad Craffu

3.1 Nod yr Ymchwiliad Craffu oedd ateb y cwestiynau canlynol:

3.1.1 A ellir tystiolaethu bod yr **unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog** yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas, ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?

3.1.2 Os oes **anfodlonrwydd neu gwynion** am y gwasanaeth presennol, a ydynt yn cael eu cyfarch yn foddhaol?

3.1.3 Os oes angen, sut mae modd **gwella'r gwasanaeth i'r dyfodol**?

## 4. Crynodeb a Diweddariad ar yr Argymhellion

4.1 Mae'r ymchwiliad hwn yn edrych ar wasanaeth sy'n cael ei ddarparu o dan ambarél y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, ac mae yna sefydliadau sy'n bodoli yn bwrpasol er mwyn craffu ar eu gwaith, ac er mwyn gwrando ar lais defnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd. Mae'n addas ac yn bwrpasol felly bod sefydliadau megis Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion sydd wedi codi drwy'r ymchwiliad craffu hwn ac yn gweithredu yn ôl yr angen.

4.2 Mae elfennau ychwanegol o gefnogaeth i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cael eu darparu gan sefydliadau eraill yn ogystal, sef Awdurdodau Lleol ac asiantaethau yn y trydydd sector yn bennaf. Rydym hefyd wedi ymchwilio i elfennau o'r gefnogaeth atodol hon ac wedi cynnig sylwadau neu argymhellion ble y credwn bod cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth bresennol.

4.3 Argymhellion:

4.3.1 Bod yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cyfeirio yr adroddiad hwn at sylw Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, gan ofyn iddynt ystyried yr angen i wneud cais i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad cenedlaethol o addasrwydd y ddarpariaeth cadeiriau olwyn o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth.

**Diweddariad: Gellir cadarnhau fod Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant wedi cysylltu a Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i amlinellu bwriad yr ymchwiliad a rhannu copi llawn o'r adroddiad ac argymhellion.**

4.3.2 Bod yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cyfeirio yr adroddiad hwn at sylw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

**Diweddariad: Gellir cadarnhau fod Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cyfeirio yr adroddiad hwn at sylw Vaughan Gething, Gweinidog a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.**

4.3.3 Bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o berfformiad y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, yn unol â'i bolisi, er mwyn iddo fedru cael ei graffu'n gyhoeddus.

**Diweddariad: Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cadarnhau eu bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o berfformiad y gwasanaeth.**

4.3.4 Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael ffurflen neu system gyfeirio electronig y mae'n bosib i bawb sy'n rhan o'r broses gyfeirio ei dilyn. Os nad yw hyn yn bosib, yna dylid cytuno ar drefn gyfathrebu sy'n sicrhau bod GYCS yn rhoi gwybod yn syth i'r unigolyn a'r sawl sy'n ei gyfeirio bod y cyfeiriad wedi ei dderbyn, a beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer darparu'r gadair neu offer.

**Diweddariad ar argymhellion 4.3.4 hyd at 4.3.12 – gweler Atodiad 1 (tud 5): Diweddariad ar y camau gweithredu gan y gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd**

**Mae Adran Oedolion Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd yn adrodd fod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd wedi cyflwyno ffurflen gyfeirio electroneg. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr i sicrhau fod Therapyddion Galwedigaethol yn gallu cyflwyno cyfeiriadau addas am offer, yn enwedig yn ystod COVID 19. Mae'r system newydd wedi galluogi'r adran i gadw cofnod mwy rhwydd o'r cyfeiriadau.**

4.3.5 Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill (ee. meddygon teulu, nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol yn y gymuned) er mwyn rhannu gwybodaeth am asesiadau o anghenion unigolyn am gadair olwyn. Dylai hyn osgoi dyblygu gwaith i staff a'r angen i gynnal asesiadau ar wahân ar gyfer darparu offer eraill, ee. cadeiriau cawod. Dylai hefyd gyflymu'r broses o ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

**Diweddariad: Mae'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd bob yn ail fis gyda'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd i wella'r gwasanaeth ar gyfer trigolion Gwynedd. Y bwriad yw gwella cyfathrebu a cydweithio. Mae Therapyddion Galwedigaethol Cyngor Gwynedd mewn cyswllt rheolaidd gyda'r gwasanaeth ac mae ymweliadau ar y cyd yn cael eu cynnal.**

4.3.6 Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Chyngor Gwynedd (a Chynghorau eraill os ydynt yn dymuno) yn parhau i gydweithio er mwyn ceisio goresgyn y rhwystr presennol o orfod cael asesiadau ar wahân ar gyfer anghenion yr unigolyn sydd angen cadair olwyn, a'r angen am addasiadau i gartref yr unigolyn.

**Diweddariad: Mae'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symunedd a Cyngir Gwynedd yn cydweithio er mwyn gwella llwybrau cyfathrebu rhwng y ddau wasanaeth ac yn cynnal ymweliadau ar y cyd er mwyn asesu ar gyfer cadeiriau olwyn.**

4.3.7 Dylid ystyried ganlyniadau cynllun newydd sy'n cael ei dreialu yn ne Cymru i hyfforddi rhai staff arbenigol yn y gymuned er mwyn cynnal yr asesiadau Lefel 2 (cadeiriau arbenigol neu bŵeredig). Os y bydd yn llwyddiannus dylid ystyried ei ymestyn yn genedlaethol.

4.3.8 Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylid rhannu gwybodaeth ac arfer dda drwy'r Clystyrau Cymunedol (gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio ar lefel leol).

Dylai gwybodaeth ynghylch pa staff o ba sefydliad sydd wedi eu hyfforddi i gynnal asesiadau Lefelau 1 a 2 gael eu rhannu'n lleol ymysg yr holl sefydliadau sy'n cefnogi unigolion mewn cadeiriau olwyn, a hynny er mwyn cyflymu'r broses gyfeirio er lles y defnyddiwr gwasanaeth.

4.3.9 Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd barhau i gydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn cynnig cefnogaeth fydd yn cyfoethogi llesiant yr defnyddiwr gwasanaeth.

**Diweddariad: Gweler ymateb i 4.3.5**

4.3.10 Dylid ystyried hyfforddi nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gofalwyr ayb i fonitro'r defnydd o gadeiriau ac offer arbenigol er mwyn ceisio rhagweld problemau gyda'r offer, neu i adnabod os oes angen ei addasu i ateb anghenion yr unigolyn, a rhoi gwybod yn brydlon i'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd am unrhyw anghenion yn amserol.

**Diweddariad: Mae cytundeb yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symunedd i drefnu sesiynau hyfforddiant rheolaidd rhwng y ddau wasanaeth i sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei gryfhau ymhellach. Bydd yr hyfforddiant yma ar gael i broffesiynau iechyd eraill megis Nyrsus Cymunedol a ffisiotherapyddion o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol.**

4.3.11 Dylai nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gofalwyr ayb roi gwybod i GYCS yn brydlon os ydynt yn ymwybodol bod cadair neu offer yn ddiffygiol neu ddim yn cael ei ddefnyddio bellach, er mwyn iddynt gael eu casglu a'u hail-ddefnyddio gan eraill sydd mewn angen.

4.3.12 Gan fod hyfforddiant eisoes ar gael i ofalwyr ar ddefnydd o'r cadeiriau olwyn, dylid hyrwyddo a gwneud yn fawr o hynny.

**Atodiad 1:**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**23/10/2020**

**Adroddiad Ymchwiliad Craffu: Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd (Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn)**

**Diweddariad ar y camau gweithredu gan y gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd**

**(nid yw hyn yn cynnwys argymhellion sydd y tu allan i gylch gorchwyl y gwasanaeth)**

## Argymhellion

4.3.4 Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael ffurflen neu system gyfeirio electronig y mae'n bosib i bawb sy'n rhan o'r broses gyfeirio ei dilyn. Os nad yw hyn yn bosib, yna dylid cytuno ar drefn gyfathrebu sy'n sicrhau bod GYCS yn rhoi gwybod yn syth i'r unigolyn a'r sawl sy'n ei gyfeirio bod y cyfeiriad wedi ei dderbyn, a beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer darparu'r gadair neu offer.

**Gweithred: Ar hyn o bryd, mae ffurflen gyfeirio electronig newydd wrthi'n cael ei datblygu, a bydd yn symud i'r cam gweithredu yn fuan, gyda Rhagfyr 2020 yn ddyddiad targed. O ran unigolion a'r rhai sy'n eu cyfeirio, mae pob cleient sy'n cael eu nodi fel rhai sydd angen asesiad yn derbyn llythyr o gydnabyddiaeth i ddangos pa lwybr clinigol y maen nhw wedi cael ei gyfeirio iddo, a bydd hyn yn cael ei gwblhau yn unol ag amserlen a osodwyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.**

*4.3.5* . Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill (ee. meddygon teulu, nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol yn y gymuned) er mwyn rhannu gwybodaeth am asesiadau o anghenion unigolyn am gadair olwyn. Dylai hyn osgoi dyblygu gwaith i staff a'r angen i gynnal asesiadau ar wahân ar gyfer darparu offer eraill, ee. cadeiriau cawod. Dylai hefyd gyflymu'r broses o ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

**Gweithred: Mae'r gwasanaeth yn cynnig sefydlu gweithgor gyda phartneriaid rhanbarthol i adnabod ffyrdd o wella rhannu gwybodaeth i gael gwared ar y rhwystrau a nodwyd. Oherwydd COVID-19, mae sefydlu gweithgorau wedi dod i stop oherwydd blaenoriaethau'r gwasanaeth, ond bu cyfathrebu rhwng partneriaethau o ran cefnogaeth yn ystod y pandemig. Gosodwyd Chwefror**

**2021 fel dyddiad targed gan y gwasanaeth, yn dibynnu ar yr ymateb i'r pandemig sy'n parhau.**

*4.3.6 .* Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Chyngor Gwynedd (a Chynghorau eraill os ydynt yn dymuno) yn parhau i gydweithio er mwyn ceisio goresgyn y rhwystr presennol o orfod cael asesiadau ar wahân ar gyfer anghenion yr unigolyn sydd angen cadair olwyn, a'r angen am addasiadau i gartref yr unigolyn.

**Gweithred: Mae'r gwasanaeth yn cynnig sefydlu gweithgor gyda phartneriaid rhanbarthol i adnabod ffyrdd o wella rhannu gwybodaeth i gael gwared ar y rhwystrau a nodwyd. Oherwydd COVID-19, mae sefydlu gweithgorau wedi dod i stop oherwydd blaenoriaethau'r gwasanaeth, ond bu cyfathrebu rhwng partneriaethau o ran cefnogaeth yn ystod y pandemig. Gosodwyd Chwefror 2021 fel dyddiad targed gan y gwasanaeth, yn dibynnu ar yr ymateb i'r pandemig sy'n parhau.**

- *4.3.7 Dylid ystyried canlyniadau'r cynllun newydd sy'n cael ei dreialu yn ne Cymru i hyfforddi rhai staff arbenigol yn y gymuned i allu cynnal asesiadau Lefel 2 (cadeiriau olwyn arbenigol neu â phŵer). Os bydd hyn yn llwyddiannus, dylid ystyried ei gyflwyno'n genedlaethol.*
  **Gweithred: Bydd y gwasanaeth yn ymgysylltu gyda gwasanaeth De Cymru i bennu effeithiolrwydd clinigol y treial. Os yw'r canlyniad yn gadarnhaol, caiff hyn wedyn ei drafod â'r comisiynydd gwasanaethau, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, o ran a ddylid cael dull safonol i Gymru Gyfan.**

- *4.3.8 Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylid rhannu gwybodaeth ac arfer gorau drwy'r Clystyrau Cymunedol (gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio ar lefel leol). Dylid rhannu gwybodaeth ynghylch pa staff o ba sefydliadau sydd wedi cael eu hyfforddi i gynnal asesiadau Lefel 1 a 2 yn lleol ymysg yr holl sefydliadau sy'n cefnogi unigolion mewn cadeiriau olwyn, er mwyn cyflymu'r broses gyfeirio er budd y defnyddiwr gwasanaeth.*
  **Gweithred: Yn gysylltiedig â Gweithredoedd 4.3.5 a 4.3.6.**

- *4.3.9 Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai'r GwasanaethYstum Corff a Symudedd barhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn cefnogi a chyfoethogi llesiant defnyddwyr gwasanaeth.*

  **Gweithred: Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn gweithio mewn cydweithrediad â'i bartneriaid Awdurdod Lleol ac eraill er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer ei boblogaeth.**

- *4.3.10* Dylid ystyried hyfforddi nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gofalwyr ayb i fonitro'r defnydd o gadeiriau ac offer arbenigol er

mwyn ceisio rhagweld problemau gyda'r offer, neu i adnabod os oes angen ei addasu i ateb anghenion yr unigolyn, a rhoi gwybod yn brydlon i'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd am unrhyw anghenion yn amserol.

**Gweithred: Mae hyfforddiant lefel 1 ar gael mewn nifer o leoliadau ac ar nifer o ddyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Rhennir y rhain gyda phrif gyfeirwyr y gwasanaeth ac, yn ogystal, gall y gwasanaeth gynnig hyfforddiant i dimoedd lle mae digon o staff ar gael i fynychu.**

- 4.3.11 Dylai nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gofalwyr ac ati hysbysu'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd ar unwaith os ydynt yn ymwybodol o gadeiriau neu offer diffygiol sydd ddim yn cael eu defnyddio bellach, fel y gellir eu casglu a'u hailddefnyddio gan eraill sydd eu hangen.

  **Gweithred: Mae modd cysylltu â'r gwasanaeth ynghylch offer nad yw bellach yn cael ei ddefnyddio neu offer sydd angen sylw. Mae'r gwasanaeth yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu offer pan fo'n ddiogel ac yn effeithiol gwneud hynny.**

- *4.3.12 Gan fod hyfforddiant eisoes ar gael i ofalwyr ar ddefnydd cadeiriau olwyn, dylid hyrwyddo hyn a gwneud y mwyaf ohono.*
  **Gweithred: Fel y nodwyd yn y canfyddiad, mae'r hyfforddiant eisoes wedi'i sefydlu ac ar gael. Mae'r gwasanaeth Ystum a Symudedd yn edrych yn barhaus ar ffyrdd o hyrwyddo'r gwasanaeth hwn, ynghyd â ffyrdd i ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr i ddatblygu'r gwasanaeth.**